Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ystadau cymru

# Enillydd Gwobr Award Winner 2022

Cydweithio i gael y gorau o'r ystad gyhoeddus
Working together to make best use of the public estate

**Croeso i rifyn arbennig Cynhadledd a Gwobrau Ystadau Cymru lle rydym yn parhau i godi ymwybyddiaeth o werth cymdeithasol**

RHIFYN WYTH

## CYNNWYS


Cynhadledd Ystadau Cymru 2022 – Gwerth Cymdeithasol
**Tudalen 3**

Datblygu ac Adfywio: Mynd i'r afael ag anghenion tai a buddsoddi yn ein cymunedau
**Tudalen 4**

Adfywio Canol Trefi
**Tudalen 5**

Agor Drenewydd
**Tudalen 6**

Triongl Maendy
**Tudalen 7**

**Gwobrau Ystadau Cymru 2022**
Cymerwch gip ar ein prosiectau a gweld arferion gorau ar waith
**Tudalen 9**


# NEWYDDION YSTADAU CYMRU O OGLEDD CYMRU

**Mae Gwobr Gyffredinol Ystadau Cymru 2022** a'r **Wobr am Gynaliadwyedd Amgylcheddol** yn mynd i...




**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM A'I BARTNERIAID**.

am dorri tir newydd wrth adnewyddu Adeiladau'r Goron yn y dref. Darllenwch ymlaen er mwyn gweld sut llwyddon nhw i gyflawni hynny.
**Gweler tudalen 8**.



# CYFLWYNIAD Y CADEIRYDD

**Gobeithio fod pawb wedi cael gwyliau da ac yn ôl yn y gwaith yn teimlo'n iach a llawn bywyd!**



Beverly Owen

**Mae 2023 yn argoeli i fod yn flwyddyn heriol ym mhob ffordd, mae costau byw, cyfyngiadau cyllidebol a chwyddiant yn cael effaith enfawr ar ein gwasanaethau cyhoeddus.**

Rydym yn parhau i fynd ati i wynebu'r heriau sydd o'n blaenau, ac roedd y gynhadledd a'r gwobrau blynyddol a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr yn gyfle gwych i ddathlu popeth sydd yn digwydd ar draws amrywiaeth o asedau ledled Cymru.

Dyma'n pedwaredd gynhadledd a'n trydedd seremoni wobrwyo, ac roedd nifer dda yn bresennol eto.

Fel arfer, cawsom gyflwyniadau ysbrydoledig ac roeddem yn ddigon ffodus o gael ein noddwr, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, i gyflwyno'r Gwobrau eleni. Rydym yn gwerthfawrogi ei chefnogaeth tuag at Ystadau Cymru, yn enwedig yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Hoffwn wrth gwrs ddiolch i dîm Ystadau Cymru am drefnu'r digwyddiad, ac i Tom Bowring am ei gefnogaeth barhaus drwy gydol y dydd.

Mae'r rhifyn arbennig hwn yn cydnabod gwaith y prosiectau a'r cyflwynwyr yn y gynhadledd, ac yn rhoi cyfle inni hefyd gydnabod gwaith gwych yr holl brosiectau a gyflwynwyd ar gyfer y gwobrau, yn ogystal â'r enillwyr.

# CYNHADLEDD YSTADAU CYMRU 2022 – GWERTH CYMDEITHASOL

**Gwerth Cymdeithasol oedd thema Cynhadledd 2022, pwnc sydd yn arbennig o berthnasol ar hyn o bryd.**

## BETH YW GWERTH CYMDEITHASOL?

**Gwerth Cymdeithasol yw'r budd ehangach y mae cymuned leol yn elwa arno wrth i gontractau cyhoeddus gael eu darparu.**

Gallai hyn olygu y **gymuned**, unigolion sydd **dan anfantais**, lleiafrifoedd, busnesau, a **Mentrau Cymdeithasol Cymunedol Gwirfoddol**, yn ogystal â'r amgylchedd, a hynny drwy wario arian cyhoeddus mewn ffordd well.

**Ar lefel syml, gellir rhannu Gwerth Cymdeithasol i 3 maes:**

| CYMDEITHASOL | ECONOMAIDD | AMGYLCHEDDOL |
|---|---|---|
|  |  |  |

Wrth i bwysau ariannol barhau i gynyddu yn y sector cyhoeddus ac wrth i alw am wasanaethau barhau i dyfu, ar hyn o bryd mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn meddwl yn wahanol wrth wario arian cyhoeddus.

**Felly, rhaid inni ofyn yn barhaus:**

**Sut gallwn ni ddarparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol a'r amgylchedd.**

**Beth sy'n bwysig i'r gymuned leol.**

**Sut gallwn ni gefnogi busnesau lleol.**

**Sut gallwn ni weithio'n well gyda'n gilydd er mwyn ymgysylltu â'r bobl hynny sy'n anodd eu cyrraedd.**

**Beth yw'r heriau lleol presennol a wynebir y gellid eu datrys yn well drwy weithio gyda'n cymunedau.**

Gallai enghraifft o ddarparu Gwerth Cymdeithasol gynnwys prosiectau sy'n ymwneud â'r ystad gyhoeddus sydd wedi cael effaith sylweddol ar y gymuned maent yn ei gwasanaethu; Prosiectau sy'n ymgorffori Gwerth Cymdeithasol fel rhan o brosesau caffael (y tu hwnt i ddisgwyliadau arferol) a phrosiectau sy'n defnyddio'r ystad gyhoeddus mewn ffordd sydd wedi ei theilwra i anghenion a blaenoriaethau lleol.

# DATBLYGU AC ADFYWIO

**Mynd i'r afael ag anghenion tai a buddsoddi yn ein cymunedau.**



Siaradwr:
**DAVID JAQUES,**
Cyngor Caerdydd

Prosiectau arloesol sy'n mynd i'r afael â'r argyfwng tai drwy greu cartrefi carbon isel i'w codi yn sydyn gyda chyn lleied â phosibl o darfu.

**Bydd y rhaglen ddatblygu yn darparu:**

Cyfanswm o **4,000** o gartrefi newydd

Amcangyfrif o werth cyffredinol y datblygiad o **£1 biliwn**

Carbon isel, effeithlon o ran ynni

Buddsoddi mewn cymunedau lleol

Gwasanaethau, cyfleusterau ac adeiladau cymunedol newydd

O leiaf **2,800** o dai cyngor a **1,200** i'w gwerthu

Y rhaglen ddatblygu fwyaf a arweinir gan Gyngor drwy Gymru

## Agweddau allweddol:

» Cartrefi i'w hadeiladu i Safonau Passivhaus a fydd o fudd i'r amgylchedd, yn sicrhau bod biliau ynni tenantiaid a pherchnogion yn cael eu cadw'n isel, yn cefnogi symudiad tuag at Garbon Sero Net.
» Mynd i'r afael â'r argyfwng tai drwy godi tai modwlar dros dro ar safle tir llwyd nad yw'n cael ei ddefnyddio.

**devandregencardiff.co.uk**

# ADFYWIO CANOL TREFI

**Cynhaliwyd y sesiwn hon gan Dîm Adfywio Llywodraeth Cymru, gyda ffocws penodol ar ganol trefi a gweithio gydag arweinwyr lleol gan ddefnyddio egwyddorion creu lleoedd.**


**Siaradwr:**
**HAMISH MUNRO,**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**




Cynlluniau llunio lleoedd ar gyfer prosiect Caerffili 2035.




Cyfnewidfa drafnidiaeth newydd gwerth **£30 miliwn** yng nghanol y dref




Buddsoddiad o **£5 miliwn** mewn cyfleusterau newydd i ymwelwyr yng Nghastell hanesyddol Caerffili



Creu datblygiad gwesty bwtîc newydd yn Park Lane



Datblygiad cymysg mawr gwerth **£15 miliwn** yn cynnwys eiddo manwerthu ac eiddo preswyl



Cynlluniau i greu Ardal Hamdden newydd uchelgeisiol sy'n cynnig cyfleoedd hamdden, manwerthu, masnachol a busnes newydd yng nghanol y dref

Gallwch edrych hefyd ar y Canllaw Llunio Lleoedd sydd wedi ei greu ar y cyd â Phartneriaeth Creu Lleoedd Cymru.

**caerphillyplaceshaping.co.uk/cy/**
**cy.dcfw.org/**

# AGOR Y DRENEWYDD

**Menter gymdeithasol gyda modelau ymddiriedolaeth tir yw Agor Drenewydd sydd yn gweithio i wneud y Drenewydd yn dref fywiog a hyfyw i fyw a gweithio ynddi ac ymweld â hi.**

**Siaradwr:**
**STUART OWEN**



Yn 2016, daeth cyfle i'r gymuned gymryd cyfrifoldeb dros stiwardiaeth 130 acer o barciau, mannau agored a glannau'r afon yn y dref. Gyda chymorth Cyngor Tref y Drenewydd a Llanllwchaearn, sicrhawyd yr ased hwn ar les 99 mlynedd ac is-les ddilynol gan Gyngor Powys.

Sefydlwyd canolfan gynaliadwy newydd i'r gymuned ac i ymwelwyr gyda Chaffi o'r enw Hafan yr Afon sydd yn borth i fannau gwyrdd a glas y Drenewydd.

**Mae prosiectau'n cynnwys:**

- Coetir Cymunedol Cyfeillgar i Natur lle plannwyd **1,800** o goed
- Creu 4 Pwynt Mynediad ar Lan yr Afon
- Cyrchfan Parc Chwarae
- Prosiect Ffermio Cynaliadwy er mwyn gwella systemau rheoli dŵr a phridd
- Rhaglenni teithiau cerdded a beicio
- Rhwydwaith gwefru cerbydau trydan
- Trac Pwmpio BMX a llwybr Beiciau Mynydd
- Prosiect y Genhedlaeth Un Blaned er mwyn cynnig offer a chymorth i bobl ifanc i weithredu yn erbyn newid hinsawdd

**Mae rhagor o fanylion ar wefan Agor Drenewydd**

**opennewtown.org.uk/cy/**

# TRIONGL MAENDY
# TROSGLWYDDO ASED CYMUNEDOL

**Elusen yw Maindee Unlimited wedi ei lleoli yng Nghasnewydd, yn y De, a gafodd ei sefydlu yn 2014 ac sydd yn cael ei rheoli gan breswylwyr lleol a sefydliad partner.**

Siaradwr:
**JOHN HALLAM**




Mae Triongl Maendy yn fan gwyrdd a chyfleuster sydd wrth galon y gymuned.

Yn dilyn trosglwyddo ased gan Gyngor Dinas Casnewydd ym mis Mawrth 2021, mae les 99 mlynedd gan Maindee Unlimited bellach. Mae'r gofod yn cynnwys bloc toiledau nad oedd yn cael ei ddefnyddio sydd bellach yn cynnwys caffi, toiledau cyhoeddus ac ardal awyr agored â chysgodfa, a gardd gymunedol sy'n llawn planhigion cyfeillgar i beillwyr.

**Mae prosiectau eraill yn cynnwys:**




Ailagor Llyfrgell Maendy yn **2015**



Adnewyddu'r llyfrgell yn **2019**

**Manteision allweddol:**

» Gwell ymdeimlad o gymuned i'r trigolion.

» Creu gofodau diogel a hygyrch i oedolion a phlant.

» Gwell cyfraddau meddiannaeth yn yr ardal, sydd o fudd i fusnesau lleol eraill.

» Dylunio mannau gwyrdd sydd o gymorth i'r amgylchedd naturiol.

**maindee.org**







# ENILLYDD CYFFREDINOL YSTADAU CYMRU 2022...

## Adnewyddu Adeiladau'r Goron yn Wrecsam

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a'i bartneriaid wedi bod yn llunio'r dyfodol, gan ymrwymo'n llawn i ddatgarboneiddio.

Rydym yn falch o gyhoeddi mai Cyngor Bwrdeistref Wrecsam yw ein henillydd cyffredinol ar gyfer 2022. Maent hefyd yn ennill y categori Dangos Cynaliadwyedd Amgylcheddol, gan weithio mewn partneriaeth â Read Construction, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam a thîm Cronfa Gofal Canolraddol Llywodraeth Cymru.

Gwnaed penderfyniad arloesol gan y Cyngor i adnewyddu yn hytrach na dymchwel eu hadeilad 4 llawr presennol sy'n dyddio o'r 1960au yng nghanol Wrecsam.

Defnyddiwyd dull deunydd yn gyntaf er mwyn lleihau galw o ran ynni a gwastraff drwy leihau faint o wres a gollir (drwy bontio thermol, sicrhau bod yr adeilad yn aerdyn ac wedi ei inswleiddio) a chyflawnwyd gwir welliannau o ran effaith allyriadau.

Aeth perfformiad ynni yr adeilad o EPC D i EPC A, a chynyddwyd oes yr adeilad fwy na **50 mlynedd**.

O gadw'r strwythur presennol gwelwyd manteision enfawr o ran carbon ymgorfforedig a threuliant deunyddiau crai.

### Llwyddwyd i osgoi dymchwel yr adeilad, gan ddileu:

- **2,000m3 o wastraff concrid**
- **3,500kgCO2 o'r gwaith dymchwel**
- **4,350kgCO2 o ailgylchu**
- **350 o deithiau cerbydau nwyddau trwm**
- **37,700kgCO2 o filltiroedd teithio**
- **300,000+Kg o garbon ymgorfforedig mewn ffrâm ddur strwythurol newydd.**

Roedd mwy i'r prosiect na hynny fodd bynnag, ac mae Hwb Lles newydd yn darparu gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, trydydd sector a gwasanaethau cymunedol integredig; gan wella mynediad at wybodaeth a chyngor a darparu datrysiadau o ran gofal a chymorth.

Mae'r prosiect hwn sydd yn esiampl i eraill wedi gwneud defnydd arloesol o arferion gorau wrth adnewyddu, gan warchod ein hamgylchedd a chefnogi cymunedau lleol mewn lleoliad yng nghanol dinas Wrecsam. Dyma gyfuniad llwyddiannus y gallwn oll ddysgu oddi wrtho.

# GWOBRAU YSTADAU CYMRU 2022

## Cymerwch gip ar ein prosiectau a gweld arferion gorau ar waith


Rydym am ichi gyfarfod â'r rheini a gymerodd ran yn y gwobrau a gobeithiwn y bydd hynny yn eich hysbrydoli i weithredu ar brosiect y gallech fod yn meddwl amdano.

Mae cymaint o waith caled yn cael ei wneud ar draws ystad y sector cyhoeddus yng Nghymru. Cafodd yr holl brosiectau eu beirniadu'n fewnol ac allanol gan gynrychiolwyr o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Un Llais Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, gyda Rebecca Evans AS yn cyflwyno'r gwobrau i'r enillwyr.

## Marchnad Dan Do Casnewydd – Enillydd – Creu Twf Economaidd Cyngor Dinas Casnewydd a'i Bartneriaid

Nod y prosiect hwn oedd ailddatblygu Marchnad Dan Do Casnewydd, tirnod rhestredig Gradd II, gan ei thrawsnewid o ased economaidd oedd yn tanberfformio i gyfleuster bywiog a chyfoes amlddefnydd sy'n cyflawni rôl angor economaidd, cymdeithasol a diwylliannol sy'n addas ar gyfer Stryd Fawr ein hoes.

Y partner LoftCo fu'n gwneud y gwaith ailddatblygu o dan les ddatblygu a roddwyd i DS Properties (Newport Market) Ltd a fydd bellach yn rheoli'r adeilad a'r tenantiaethau.



FFAITH **GYFLYM?**

**Drwy ailddatblygu'r adeilad a'i osod ar les, cynhaliwyd ei adeiladwaith hanesyddol.**

**Roedd cyfraddau meddiannaeth isel ac amgylchedd masnachu nad oedd yn cael ei ddefnyddio'n ddigonol yn broblemau cyson oedd yn gostwng yr incwm oedd ar gael i ailfuddsoddi er mwyn cynnal strwythur yr adeilad.**

## Ffordd Yr Eglwys – Enillydd – Arloesi – Cymoedd i'r Arfordir a'i Bartneriaid

Mae Ffordd yr Eglwys yn brosiect cyntaf o'i fath o ran tai cymdeithasol yng Nghymru. Cafodd ei gyflawni gan Cymoedd i'r Arfordir mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Llywodraeth Cymru.

Dyluniwyd Ffordd yr Eglwys, datblygiad o bedwar cartref un ystafell wely ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gan ddefnyddio safle a oedd yn bodoli eisoes lle safai tai mewn cyflwr gwael. Llwyddodd y prosiect i ddwyn ynghyd anghenion y gymuned leol a dyheadau ac ymrwymiad cymdeithas dai fach leol er mwyn creu rhywbeth arbennig.



FFAITH GYFLYM?


**Y datblygiad yn Ffordd Yr Eglwys oedd y tai cymdeithasol cyntaf yng Nghymru i'w hadeiladu gan ddefnyddio'r system dull modwlar.**

**Mae'r cartrefi yn hynod o effeithlon o ran ynni, ac wedi cael graddfa EPC A, ac mae ynddynt baneli strwythurol wedi eu hinswleiddio eisoes, a phaneli solar. Roedd deunyddiau ysgafn yn fforddiadwy ac yn golygu nad oedd angen am nifer o grefftwyr.**

## Canolfan Dysgu'r Heddlu – Heddlu De Cymru

Mae Heddlu De Cymru wedi cyfuno eu hadnoddau swyddfa a hyfforddi er mwyn creu Canolfan Dysgu'r Heddlu. Mae'r datblygiad hwn yn bwysig iawn gan mai dyma fydd yr argraff gyntaf y bydd aelodau staff newydd yn ei chael o Heddlu De Cymru, gan roi'r neges bod lles yn bwysig.

Roedd y dyluniad yn canolbwyntio ar sicrhau adeilad Gradd A sy'n gallu darparu perfformiad amgylcheddol cyson gyda'r defnydd o system wresogi ac oeri sy'n derbyn aer ffres drwy unedau trin aer lleol a chanolog. Mae'r system hon yn cael ei rheoli gan synwyryddion CO2 er mwyn defnyddio cyn lleied o ynni â phosibl.



FFAITH GYFLYM?

**Mae Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth sy'n benodol i'r safle yn canolbwyntio ar wella bioamrywiaeth. Mae cyfrannu deunyddiau inswleiddio i wenynwyr lleol ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi golygu y llwyddwyd i greu gorchuddion tai thermol er mwyn sicrhau y bydd y gwenyn yn goroesi tymheredd oer y gaeaf.**

## Hyb Lles @ Maelfa – Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro a'i Bartneriaid

Mae'r prosiect yn darparu cyfleuster gofal iechyd sylfaenol o'r radd flaenaf sy'n cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau cynaliadwy ac integredig yn Llanedern, Pentwyn a'r ardal gyfagos. Mae'n cyd-fynd â'r cynllun adfywio ehangach ym Maelfa sydd wedi trawsnewid yr ardal i fod yn ganolbwynt newydd a hyfyw i'r gymuned.

Mae'r ganolfan ofal integredig newydd yn trawsnewid iechyd a gofal cymdeithasol yn ardaloedd Llanedern a Phentwyn drwy ddod ag iechyd a gofal cymdeithasol cydgysylltiedig i gymunedau lleol am y tro cyntaf.




FFAITH GYFLYM?

**Mae dyluniad cyffredinol yr Hyb Lles, sydd wedi ei integreiddio i'r Powerhouse presennol yn golygu y gellir rhannu adnoddau a mannau cyfarfod.**

**Mae hyn yn lleihau'r gofyniad o ran maint yr adeilad a'r defnydd o adnoddau cysylltiedig, yn ogystal â chyflwyno'r datblygiad ehangach fel 'un' cyfleuster cyhoeddus.**

## Neuadd Bentref Aberogwr – Enillydd – Gwerth Cymdeithasol – Cyngor Bro Morgannwg a Chymdeithas Neuadd Bentref Aberogwr

Arferai Aberogwr fod â chyfleusterau i'r gymuned, ond cawsant eu cau yn 2007. Wedi hynny, neilltuwyd y safle ar gyfer tai yn y Cynllun Datblygu Lleol. Aeth grŵp o drigolion Cymdeithas Neuadd Bentref Aberogwr at y Cyngor yn 2012 i ofyn a fyddai modd iddynt adeiladu neuadd ac adnodd chwarae awyr agored a fyddai'n eiddo i'r gymuned.

Roedd y Cyngor yn berchen ar hen floc toiledau yng nghanol y pentref, oedd wedi ei gau ers sawl blwyddyn ond Ystad Dwn-rhefn oedd yn berchen ar y tir o'i amgylch. Yn ogystal â hynny, roedd y tir o amgylch y bloc toiledau yn dir comin, ac yn cael ei effeithio gan hawliau comin. Datblygodd y prosiect neuadd bentref o ansawdd uchel a fyddai'n cryfhau cymuned arfordirol Aberogwr.



FFAITH GYFLYM?

**Ymrwymwyd i ddwy les (gyda'r Cyngor ac Ystad Dwn-rhefn) a chafwyd cadarnhad ysgrifenedig gan y Gymdeithas Cominwyr y byddent yn atal eu hawliau dros y tir comin dros dro.**

## Gwasanaethau Hyfforddi ac Addysg Gweithwyr Iechyd Proffesiynol – Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a'i Phartneriaid

Gweithiwyd ar y cyd ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru ar gaffael gwasanaethau addysg a hyfforddiant.

Comisiynwyd adolygiad o addysg a hyfforddiant, ac un o'r elfennau craidd oedd ymgysylltu â 130 o randdeiliaid ar draws cyrff addysg, iechyd a gofal, a chyrff llywodraethol a phroffesiynol.

Cynhaliodd Addysg a Gwella Iechyd Cymru ddigwyddiad ymgysylltu cyn mynd i'r farchnad gyda phob darparwr addysg posibl oedd â diddordeb.

Ymgysylltodd y tîm prosiect â myfyrwyr o bob proffesiwn clinigol o chwe darparwr addysg i drafod eu profiadau ar gyrsiau a gomisiynwyd.



FFAITH GYFLYM?

**Mae dysgu o bell yn rhoi mwy o gyfleoedd i bobl leol wneud eu profiad clinigol yn agos at eu cartref a chael effaith yn y gymuned leol ar ôl graddio.**

## Fferm Solar 0.45 MW – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a'i Bartneriaid

Gweithiodd y Bwrdd Iechyd yn agos â Gwasanaethau Ynni Llywodraeth Cymru er mwyn datblygu a darparu fferm solar 0.45 MW ar safle yr oedd y Bwrdd Iechyd yn berchen arno.

Mae'r fferm solar yn cynnwys 1098 o baneli 455W. Bydd ychwanegu storfa fatris yn sicrhau gwydnwch rhag costau ynni cynyddol yn y dyfodol.

Mae'r prosiect wedi galluogi'r Bwrdd Iechyd i ddefnyddio darn o dir nad oedd yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu ei drydan ei hun, ond mae hefyd wedi ei alluogi i gymryd camau ychwanegol i sicrhau y bydd yr ardal o amgylch y paneli solar yn cael ei gwella drwy blannu planhigion cynhenid a chyflwyno coed ffrwythau a rhywogaethau cynhenid eraill er mwyn annog peillio ac annog bywyd gwyllt i ffynnu.



FFAITH GYFLYM?

**Bydd gosod y fferm solar yn arbed tua £72,827 i'r Bwrdd bob blwyddyn, yn arbed tua 110 tunnell o garbon ac yn parhau i wneud hynny am oes y prosiect (tua 25 mlynedd).**

## Ysgol Gynradd South Point – Cyngor Bro Morgannwg a'i Bartneriaid

Mae Ysgol Gynradd South Point yn brosiect a gyflawnodd yr ysgol carbon sero net gyntaf yng Nghymru ac mae'n fodel i brosiectau'r dyfodol ddatblygu arno.

Mae'r adeilad wedi ei ddylunio i gyflawni carbon sero net drwy well deunydd adeiladu, gwneud y mwyaf o ynni haul, cynyddu paneli ffotofoltäig gyda storfa fatris a phwmp gwres ffynhonnell aer.

Mae'r model carbon sero net a ddatblygwyd ar Ysgol Gynradd South Point wedi ei fabwysiadu gan y Cyngor a'i rannu gydag Awdurdodau cyfagos.



FFAITH **GYFLYM?**

**Mae allyriadau carbon llawer iawn is yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd. Mae plant yn dysgu am bynciau fel ecoleg a chynaliadwyedd ac yn cael rhybudd am beryglon tanwydd ffosil, ac mae hyn yn helpu i newid ymddygiad.**

## GALW AM ASTUDIAETHAU ACHOS

Dangosodd y gynhadledd a'r gwobrau y gwaith da sy'n cael ei wneud ledled Cymru a'r cyfraniad y mae ein gwaith asedau yn ei wneud o ran ymrwymiadau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Yn y cyfnod hynod o anodd yn ariannol yr ydym ynddo, mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn rhannu arferion gorau gyda'n gilydd ac yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn dangos ffyrdd arloesol o weithio i'n gilydd.

Mae gweithio gyda'n gilydd er mwyn rhannu arferion gorau yn rhan allweddol o waith Ystadau Cymru, ond rhaid inni gael eich cymorth chi er mwyn gwneud hyn.

Anfonwch wybodaeth am y prosiectau rydych yn gweithio arnynt atom er mwyn eu hyrwyddo yn eich cylchlythyr drwy anfon e-bost at **ystadaucymru@llyw.cymru**. Gallwn hefyd weithio gyda chi i lunio erthygl os yw amser yn brin.

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG46779, ISBN digidol 978-1-80535-515-1
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg